# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 20 Chwefror 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

## 190(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Dwy flynedd ers yr ymosodiad llawn ar Wcráin a diweddariad ar y Genedl Noddfa

(30 munud)

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Mesurau arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - flwyddyn yn ddiweddarach

(45 munud)

## 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Y Strategaethau 'Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol' ac 'Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed'

(45 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: System a Siarter Budd-daliadau Cymru

(30 munud)

## 7 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cynllun Gweithredu Technoleg Gymraeg

(30 munud)

## 8 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Wythnos 'CaruUndebau'

(30 munud)

## 9 Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2024

(5 munud)

**NDM8486** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2024 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2024.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 10 Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2024

(5 munud)

**NDM8485** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2024 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 09 Ionawr 2024.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 11 Dadl: Setliad yr Heddlu 2024-25

(30 munud)

**NDM8482** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2024-25 (Setliad Terfynol - Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2024.

## 12 Cyfnod pleidleisio

Ar ddiwedd y Cyfarfod Llawn bydd Pwyllgor o'r Senedd Gyfan yn ymgynnull i drafod y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Pwyllgor o'r Senedd Gyfan

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 21 Chwefror 2024

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 15/02/2024 i'w hateb ar 20/02/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

1 OQ60687 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu cyfleoedd prentisiaethau yn y canolbarth?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

2 OQ60714 **(w)**

Pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â thrais domestic?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ60715 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau diogelwch safleoedd gwenwynig yn y de ddwyrain?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

4 OQ60716 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar ddeuoli adrannau 5 a 6 ffordd yr A465 Blaenau'r Cymoedd?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

5 OQ60712 **(e)**

A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith diweddar ar y cynllun ffermio cynaliadwy?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

6 OQ60681 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r sector ynni adnewyddadwy ym Mhreseli Sir Benfro?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

7 OQ60717 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi gofalwyr di-dâl?

8

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

## OQ60691 (e)

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi bobl sy'n dioddef o feigryn?

9

**Sian Gwenllian** *Arfon*

## OQ60676 (w)

Pa asesiad mae'r Llywodraeth wedi ei wneud ynghylch a ydi cynlluniau i adeiliadu gorsafoedd nwy yn Arfon yn gydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

10

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

## OQ60706 (e)

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda thiriogaethau tramor Prydain?

11

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

## OQ60684 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gapasiti'r grid trydanol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

12

**Joel James** *Canol De Cymru*

## OQ60700 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cymorth y bydd ffermwyr yn ei gael er mwyn cynnal safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig ar eu tir?